# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 8

ADOLYGIADAU AC APELAU

## PENNOD 1

RHAGARWEINIOL

*Penderfyniadau apeliadwy*

### 172 Penderfyniadau apeliadwy

(1) Caiff person y mae penderfyniad apeliadwy yn gymwys iddo—

(a) gofyn am adolygiad o'r penderfyniad (yn ddarostyngedig i is-adran (4)), a

(b) apelio yn erbyn y penderfyniad,

yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Rhan hon.

(2) Mae'r penderfyniadau a ganlyn gan ACC yn benderfyniadau apeliadwy—

(a) penderfyniad sy'n effeithio ar ba un a yw treth ddatganoledig i'w chodi ar berson;

(b) penderfyniad sy'n effeithio ar y swm o dreth ddatganoledig sydd i'w godi ar berson;

(c) penderfyniad sy'n effeithio ar y diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu swm o dreth ddatganoledig;

(d) penderfyniad ynglŷn â chosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;

(e) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath.

(3) Ond nid yw'r penderfyniadau a ganlyn yn benderfyniadau apeliadwy—

(a) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad ymholiad o dan adran 43 neu 74;

(b) penderfyniad i ddyroddi—

(i) hysbysiad trethdalwr, neu

(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo;

(c) penderfyniad i gynnwys gofyniad penodol mewn—

(i) hysbysiad trethdalwr, neu

(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo.

(4) Pan fo'r tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi hysbysiad gwybodaeth, ni chaiff person ofyn am adolygiad o benderfyniad ACC i ddyroddi'r hysbysiad.

(5) Pan ganiateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad mewn hysbysiad o'r fath, caniateir gofyn amdano neu ei wneud ar y seiliau a ganlyn yn unig—

(a) ei bod yn afresymol ei gwneud yn ofynnol i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad;

(b) bod darpariaeth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro'r hysbysiad rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen;

(c) yn achos hysbysiad adnabod a ddyroddir o dan adran 92 neu hysbysiad cyswllt dyledwr a ddyroddir o dan adran 93, nad yw amod 4 o'r adran honno wedi ei fodloni.

(6) Yn achos penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, y person y mae'r penderfyniad yn gymwys iddo at ddibenion is-adran (1) yw'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau—

(a) addasu'r adran hon er mwyn—

(i) ychwanegu penderfyniad at is-adran (2) neu (3);

(ii) amrywio'r disgrifiad o benderfyniad yn y naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;

(iii) tynnu ymaith benderfyniad o'r naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;

(b) diwygio'r Rhan hon er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch ar ba seiliau y caniateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad apeliadwy.